Cofion a Chyfarchion

Parhawn i gofio yn ein gweddïau am Dwynwen Davies (Nantglyn) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Eurgain Pierce (Llannefydd) yn yr Inffirmari, a Merfyn Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Clatterbridge. Mae'n dda cael adrodd fod Trebor Roberts (Llansannan) adref o'r ysbyty erbyn hyn. Anfonwn ein cofion at y pedwar ohonoch ac at bawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd ar hyn o bryd. Diolchwn am bob un ohonoch a hyderwn y byddwch yn profi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich hangen.

Anfonwn ein cofion hefyd at Dilys Jones (Nantglyn) sydd erbyn hyn wedi symud i gartref Dolwen yn Ninbych. Gobeithiwn y byddwch yn setlo yno'n fuan iawn. Cofiwn hefyd am Gwen Evans (Saron) a Richard M. Jones (Cefn Berain) sydd mewn cartrefi gofal. Gweddïwn eich bod ill tri yn profi cysur a daioni Duw yn ddyddiol, a diolchwn am y gofal yr ydych yn ei dderbyn.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y pythefnos nesaf!

Llongyfarchiadau hefyd i Huw Mars-Jones (Hiraethog) a Becca ar enedigaeth merch, Ela Fflur. Gweddïwn drosoch fel teulu, a diolchwn i Dduw am ei ddaioni yn eich hanes.

Apêl Argyfwng y Dwyrain Canol

Fel y gwyddoch, mae miloedd o bobl yn Gaza ac Israel a'r rhanbarth ehangach yn profi colled, trawma ac angen aruthrol ar hyn o bryd. Mae miloedd o bobl wedi cael eu lladd. Mae bywydau'n cael eu dinistrio. Mae teuluoedd yn gwahanu ac mae dros filiwn o bobl wedi cael eu dadleoli. Mae ysbytai ac ysgolion – llefydd diogel fel arfer – wedi cael eu dinistrio gan fomiau. Nid oes gan bobl unman i fynd, ac mae taer angen am fwyd, dŵr a thanwydd. Mae *Tearfund* yn gweithio gydag eglwysi a phartneriaid lleol i gefnogi eu paratoadau a'u helpu i ymateb i anghenion pobl ar draws y rhanbarth. Felly, os gallwch, plîs cyfrannwch heddiw i ddangos cariad Duw tuag at bobl sydd mewn angen dybryd. Bydd eich cyfraniad yn helpu eglwysi lleol i ddarparu cymorth hanfodol i'r rhai y mae'r argyfwng dyngarol yn effeithio arnynt. Os dymunwch gyfrannu trwy'r Ofalaeth, gofynnwn i chi i wneud hynny ar-lein os yw hynny'n bosib (anfonwch neges i Mair i gael y manylion banc) neu gallwch anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gyda 'Dwyrain Canol' wedi ei ysgrifennu ar y cefn, **erbyn diwedd Tachwedd,** os gwelwch yn dda. Diolch am eich cefnogaeth.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (22ain), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12 Tachwedd 2023

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Y rhyfela'n parhau

Mae mis cyfan ers i mi sgwennu'r golofn hon ddiwethaf. Fedraf fi ddim cofio popeth a wneuthum ers hynny, ond mae nodiadau'r calendr yn f'atgoffa am bethau mor amrywiol ag angladd ffrind annwyl, penwythnos efo'r plant a'r wyrion, gemau pêl droed rhyngwladol, ambell bwyllgor a mymryn o arddio. Stori debyg fu hi i rai ohonoch chithau: amrywiaeth o ddigwyddiadau a phrofiadau a lanwodd ddyddiau'r mis. Ond i eraill, anodd wrth edrych nôl fydd meddwl am unrhyw beth heblaw'r afiechyd neu'r pryder neu'r galar a fu'n ofid parhaus. Parhawn i weddïo dros ein gilydd; ac yn y cyfan, boed i ni'r cysur o wybod fod eraill yn cofio amdanom ac yn ein cyflwyno i ofal Duw.

Welwyd, gwaetha'r modd, fawr o amrywiaeth dros y mis diwethaf yn Gaza yn sgil ymateb dialgar Llywodraeth Israel i ymosodiadau ffiaidd Hamas ar y seithfed o Hydref. Mis o warchae; mis o atal dŵr a thrydan a bwyd; mis o fomio; mis o ddymchwel tai ac ysbytai; mis o ffoi lle nad oes ffoi'n bosib; mis o arswyd; mis o ddioddef; mis o ladd plant bach.

Mis hefyd o wadu bod a wnelo'r rhyfel ag amgylchiadau gormesol y blynyddoedd diwethaf. Mis o fynnu bod erchyllter anghyfiawnderau'r gorffennol yn gyfiawnhad digonol dros y lladd presennol. Mis o wrthodiad llywodraethau'r Gorllewin nid yn unig i gondemnio'r bomio didrugaredd ond o fethu â galw am gadoediad a diwedd i'r lladd. Mis o fychanu a thanseilio hyd yn oed ymdrechion y Cenhedloedd Unedig i dynnu sylw at y dioddefaint creulon. Mis o ddweud bod unrhyw un a faidd gyhuddo Llywodraeth Israel o droseddau rhyfel a hil-laddiad yn bleidiol i Hamas ac yn elyn i bob Iddew. Mis o wallgofrwydd hunllefus. Ond diolch am hynny, mis y clywyd hefyd o du rhai Israeliaid a Phalestiniaid gri gyffredin am ddiwedd i'r rhyfel a galwad unol am gymod a heddwch a chyfiawnder.

Yr un, gobeithio, yw ein cri a'n galwad ninnau. A daliwn i weddïo dros bobl Gaza ac Israel a'r gwledydd cyfagos, ar i bawb – ac yn arbennig y gwleidyddion a'r arweinwyr – weithredu geiriau'r Iesu a droediodd yr union diroedd hyn: 'Pa beth bynnag y dymunwch i eraill ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy; hyn yw'r Gyfraith a'r proffwydi' (Mathew 7:12). Geiriau doeth y 'Rheol Euraidd' a adleisir yn ysgrythurau'r Iddew a'r Moslem: 'Paid â gwneud i eraill yr hyn sy'n wrthun i ti'; a 'Does neb wir yn credu nes iddo gofleidio i'w frawd yr hyn y mae'n ei gofleidio iddo'i hunan'.

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Tachwedd 12fed

- **Cyfarfod Gweddi yn Llansannan** am 10:00 ac Ysgol Sul y plant yn cydredeg. Bydd Gwasanaeth Sul y Cofio wrth y gofeb am 10:50.
- **Cyfarfod Gweddi yn Llanfair** am 10:00 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 10:30.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gwyndaf Jones. Bydd Ysgol Sul yn Groes yn dilyn yr oedfa.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch yn Nantglyn** am 2:00.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob prynhawn Sul arall).

Dydd Mawrth, Tachwedd 14eg

- **Cinio Jangl yn Festri Llansannan** am 12:00.

Dydd Mercher, Tachwedd 15fed

- **Cynhadledd i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi'r Byd 2024** yng Nghapel Emaus, Lôn Cariadon, Bangor LL57 2TE o 10:00 y bore hyd 1:00 y pnawn.

Dydd Iau, Tachwedd 16eg

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?

Dydd Sul, Tachwedd 19eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad Mr Gerallt Jones. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:30 ac Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd.
- **Oedfa Gymun yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard.
- **Oedfa'r Fro** yng Nghapel Cefn Berain am 6:00 yr hwyr gyda Rhys Dafis yn arwain a'r Parch. John Pritchard yn pregethu.

Dydd Llun, Tachwedd 20fed

- **Grŵp Cenhadu a Chyfathrebu** yn cyfarfod yng nghegin Capel Llannefydd am 7:30 yr hwyr i drafod sut i ddatblygu'r gwaith o fewn yr Ofalaeth. Os oes unrhyw un arall â diddordeb i ymuno, croeso i chi ddod i'r cyfarfod.
- **Cymdeithas Llansannan** – 'Hanesion cymeriadau Llansannan' gan Emrys Williams, Llangernyw yn Festri Llansannan am 7:30. Croeso i bawb.

Dydd Mawrth, Tachwedd 21ain

- **Cinio Jangl yn Festri Llansannan** am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7:30 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Mercher, Tachwedd 22ain

- **Cymdeithas Cefn Berain** – Cynhelir noson hwyliog dan arweiniad ieuenctid y capel am 7:30. Bydd paned i ddilyn. Croeso i bawb.

Dydd Iau, Tachwedd 23ain

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn.

Dydd Sul, Tachwedd 26ain

- **Bore Bro Aled –** Oedfa i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10:30 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris.

Rhaghysbys

- **Paned a Sgwrs Llansannan** – Cinio Nadolig yng Nghaffi Cariad, Llanelwy dydd Mercher, Rhagfyr 6ed am 12:30. Mae angen enwau cyn Tachwedd 22ain, os gwelwch yn dda.

Arfogi 23

Mae ARFOGI yn ddigwyddiad blynyddol i oedolion ifanc o bob rhan o Gymru a thu hwnt fydd yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala o Tachwedd 17eg–19eg. Y thema eleni fydd 'Troi'r byd ben i waered'. Mae croeso i fyfyrwyr, teuluoedd ifanc ac unrhyw un yn eu 20au a 30au! Pris y penwythnos cyfan yw £65, yn cynnwys bwyd a 2 noson o lety yng Ngholeg y Bala neu Fryn y Groes. (£25 yw'r pris am y dydd Sadwrn yn unig.) Mae croeso hefyd i bobl wneud eu trefniadau llety eu hunain. Bydd gofal plant ar gael. Mwy o fanylion a chofrestru ar y ddolen hon: https://souledoutcymru.net/arfogi/?fbclid=IwAR1Lw-7Z9GK0Ek4k-LbQeP2fWNYKPN9kgFh5qgRJBeThzwZO1Q2Q4_s2_e4